Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Feithrin Rhydaman/ Ammanford Nursery School

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Yn Ysgol Feithrin Rhydaman, mae disgyblion yn hapus wrth eu chwarae a'u dysgu. Maent yn frwdfrydig wrth archwilio pob math o brofiadau cyfoethog y tu fewn a'r tu allan i'r dosbarth, sy'n eu cymell i ymgolli a chyd-ddysgu gyda'u ffrindiau yn dda. Mae'r disgyblion yn falch o fod yn aelod unigryw o'r ddarpariaeth gynhwysol, ac maent yn mwynhau gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol themâu.

Mae gan staff berthynas weithio ofalgar â disgyblion ac maent yn adnabod eu hanghenion lles a dysgu yn dda. Trwy hyn, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn dangos parch a charedigrwydd tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae staff yn galluogi disgyblion i feithrin ymdeimlad cryf o berthyn ac at eu gwerthfawrogiad o'r ysgol, y gymuned leol, Cymru a'r byd ehangach.

Mae'r tîm o staff ymroddgar yn cydweithio'n fedrus wrth gynllunio cwricwlwm sy'n cyfateb i ddiddordebau ac anghenion dysgu'r disgyblion. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddweud beth fyddent yn hoffi ei ddysgu o fewn yr amgylchedd ysgogol. O ganlyniad, mae staff yn addasu'r gweithgareddau yn grefftus er mwyn ennyn a chynnal dysgu'r disgyblion. Mae staff yn cyflwyno ystod effeithiol o weithgareddau sy'n cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cyson dros amser. Yn gyffredinol, nid yw'r prosesau gwerthuso bob tro'n cyflwyno gwybodaeth ehangach am ddysgu a chynnydd disgyblion.

Mae gan athrawon a'r cynorthwywyr dysgu ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Maent yn cymell disgyblion i herio eu hunain ac i ddatblygu'n ddysgwyr mentrus a chreadigol. Mae cyfleoedd ymarferol, fel yn 'Caffi Plwmp', yn meithrin annibyniaeth disgyblion yn dda ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu yn effeithiol.

Mae'r pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Trwy brosesau hunanwerthuso effeithiol, mae arweinwyr yn adnabod beth mae'r ysgol yn ei wneud yn dda a beth sydd angen ei wella, yn effeithiol. Mae llywodraethwyr a rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol, sy'n cyfrannu'n fuddiol at les a datblygiad disgyblion.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella**

A1 Datblygu prosesau gwerthuso dysgu a chynnydd disgyblion ymhellach

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/01/2026